

wavehill™

social and economic research
ymchwil cymdeithasol ac economaidd

Dadansoddiad o'r Ymgynghoriadau ar Ganllawiau Ychwanegol Cwricwlwm i Gymru

Ebrill 2022



Wavehill: ymchwil cymdeithasol ac economaidd

Awduron yr adroddiad:

Llorenc O'Prey

Ebrill 2022

- Swyddfa Cymru: 21 Sgwâr Alban, Aberaeron, Ceredigion, SA46 0DB (swyddfa gofrestredig)
- Swyddfa Gorllewin Lloegr: 2–4 Park Street, Bristol, BS1 5HS
- Swyddfa Gogledd Lloegr: Milburn House, Dean Street, Newcastle, NE1 1LF
- Swyddfa Llundain: 52 Cecile Park, Crouch End, London, N8 9AS

Manylion cyswllt:

Ffôn: 01545 571711
E-bost: wavehill@wavehill.com
Twitter: @wavehiltweets
Gwefan: www.wavehill.com

Dylai unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r adroddiad hwn gael eu cyfeirio yn y lle cyntaf at Llorenc O'Prey (llorenc.oprey@wavehill.com)

1 Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno crynodeb o farn a safbwyntiau ymatebwyr mewn perthynas o ganllawiau a dogfennau drafft sy'n ymwneud â'r Cwricwlwm i Gymru. Er mwyn cynorthwyo lleoliadau ac ysgolion i ymgysylltu ag elfennau o'r cwricwlwm newydd, mae ymarferwyr a rhanddeiliaid wedi bod yn cyd-gynllunio'r canllawiau a'r dogfennau drafft canlynol:

- [Agor Llwybrau](#)

Er mwyn deall pa mor ddefnyddiol a chlr oedd y dogfennau hyn, gofynnodd Llywodraeth Cymru am farn a safbwyntiau'r gymuned addysgol. Cynhaliwyd ymgynghoriad ar bob elfen o'r canllawiau a'r dogfennau. Mae'r adborth a'r safbwyntiau wedi llywio datblygiad parhaus y dogfennau a'r canllawiau, cyn i'r Cwricwlwm i Gymru gael ei gyflwyno i leoliadau ac ysgolion ym mis Medi 2022.

Caiff barn yr ymatebwyr ar bob elfen o'r canllawiau drafft ei harchwilio yn yr adroddiad yma. Mae hwn yn cynnwys crynodeb o'r ymatebion, ac yna ceir archwiliad manwl o'r farn a'r safbwyntiau a fynegwyd gan ymatebwyr.

2 Agor Llwybrau

Ochr yn ochr â'r cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir, gwahoddwyd ymarferwyr a rhanddeiliaid ehangach i fynegi'u barn hefyd ar ganllawiau Agor Llwybrau.

2.1 Crynodeb o'r Ymatebion

Ymgynghorwyd ag ymatebwyr hefyd ar ganllawiau Agor Llwybrau. Mae'r canllawiau'n cynorthwyo ymarferwyr mewn lleoliadau ac ysgolion i gynllunio, dylunio a gweithredu cwricwlwm priodol ar gyfer pob dysgwr, gan gynnwys y rhai sydd ar ddechrau taith ddysgu sy'n arwain at gam cynnydd 1. Gwnaeth cyfanswm o 79 o ymatebwyr roi o'u hamser i rannu eu barn. Cafwyd ymatebion gan amrywiaeth eang o unigolion a sefydliadau, gan gynnwys ymarferwyr ac uwch arweinwyr sy'n gweithio ar draws lleoliadau meithrin yn ogystal ag ysgolion cynradd ac ysgolion arbennig.

Canfyddiadau

Ar y cyfan, roedd ymatebwyr o'r farn bod y canllawiau'n ddefnyddiol ac yn llawn gwybodaeth. Cytunwyd yn gyffredinol bod y canllawiau'n hygyrch a bod y ddogfen yn glir ac yn gryno. At hynny, roedd cefnogaeth eang i deimlad a chyfeiriad cyffredinol y dull gweithredu a geir yn y canllawiau. Roedd hyn yn deillio o'r ddealltwriaeth bod y dull sy'n cael ei argymhell yn y canllawiau yn briodol ac yn effeithiol o ran cefnogi pob dysgwr, gan gynnwys y rhai sy'n gweithio tuag at gam cynnydd 1.

Cynigiodd yr ymatebwyr nifer o awgrymiadau ynglŷn â ble y gellid cryfhau'r canllawiau. Roedd y rhain yn tueddu i ganolbwyntio ar gynnwys rhagor o wybodaeth neu gysylltiadau mwy penodol â chanllawiau eraill, gan gynnwys y Cwricwlwm i Gymru. Awgrymodd rhai hefyd y dylid cynnwys gwybodaeth fwy ymarferol fel esiamplau a allai hybu ymgysylltiad ymhlith ymarferwyr. Byddai enghreifftiau o sut y gellid ymgorffori arsylwi mewn dysgu ac addysgu, er enghraifft, yn helpu ymarferwyr i ddychmygu a gweithredu ar y canllawiau. Teimlai eraill y byddai rhagor o wybodaeth neu gyfeiriad mwy penodol at rai agweddau fel hawliau plant a hyrwyddo'r Gymraeg yn werthfawr. At hynny, teimlwyd ei bod yn bwysig bod cymorth a hyfforddiant ehangach yn cael eu darparu i gyd-fynd â'r canllawiau.

2.2 Cyflwyniad

Cefndir

Datblygwyd canllawiau Agor Llwybrau i gynorthwyo ymarferwyr mewn lleoliadau ac ysgolion i gynllunio, dylunio a gweithredu cwricwlwm priodol ar gyfer pob dysgwr. Mae'r canllawiau'n rhan o Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru, ac mae'n cyflwyno dechrau taith ddysgu sy'n arwain at gam cynnydd 1.

Mae'r canllawiau'n cyfleu'r egwyddorion allweddol sy'n hanfodol er mwyn sicrhau dysgu cyfannol ac ystyrllon i bob dysgwr yn ystod y cyfnod hwn. Yn hanfodol i hyn y mae tri

'galluogwr', sy'n cael eu disgrifio yn y canllawiau fel Rôl yr Oedolyn, Rôl Profiadau, a Rôl yr Amgylchedd. Dylai dyluniad effeithiol i'r cwricwlwm sicrhau hefyd bod y galluogwyr yn darparu cyfleoedd cyson ar gyfer nodweddion allweddol addysgeg lwyddiannus, gan gynnwys:

- chwarae a dysgu chwareus
- bod yn yr awyr agored
- arsylwi
- dysgu dilys a phwrpasol.

Mae dealltwriaeth o ddatblygiad plant hefyd yn hanfodol ar gyfer cynllunio, dylunio a gweithredu cwricwlwm sy'n briodol i bob dysgwr. Mae canllawiau Agor Llwybrau yn archwilio ymhellach sut y dylid defnyddio'r ddealltwriaeth hon i gefnogi cynnydd i bob dysgwr.

I gael rhagor o wybodaeth am y ddogfen ymgynghori, cliciwch [fan yma](#).

Ymatebion

Er mwyn deall barn ymarferwyr a rhanddeiliaid eraill ynglŷn â chanllawiau Agor Llwybrau, gwahoddiwyd ymatebwyr i roi adborth ar-lein neu drwy e-bost. Gwnaeth cyfanswm o 79 o ymatebwyr roi o'u hamser i rannu eu barn. Cafwyd ymatebion gan amrywiaeth eang o unigolion a sefydliadau, gan gynnwys ymarferwyr ac uwch arweinwyr sy'n gweithio ar draws lleoliadau meithrin yn ogystal ag ysgolion cynradd ac ysgolion arbennig. At hynny, cafwyd ymatebion gan unigolion a sefydliadau sy'n cefnogi dysgwyr a'r gymuned addysgol yn ehangach, gan gynnwys rhieni/gofalwyr, Swyddogion Arweiniol Anghenion Dysgu Ychwanegol, ac Athrawon Ymgynghorol y Blynyddoedd Cynnar. Cafwyd ymatebion hefyd gan gonsortia rhanbarthol, awdurdodau lleol ac asiantaethau eraill sydd â diddordeb yng nghanllawiau Agor Llwybrau.


2.3 Y Berthynas Rhwng Agor Llwybrau a'r Cwricwlwm

Gofynnwyd i'r ymatebwyr yn gyntaf a oeddent yn teimlo bod perthynas glir rhwng canllawiau Agor Llwybrau a chanllawiau a dogfennau ehangach y Cwricwlwm i Gymru.¹

Canfyddiadau Cyffredinol

Teimlai'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr fod cysylltiadau clir a chysondeb mewnol rhwng canllawiau Agor Llwybrau a'r Cwricwlwm i Gymru fel cyfanwaith:

¹ Cwestiwn 2 – Oes perthynas glir rhwng y canllawiau drafft hyn a'r canllawiau Cwricwlwm i Gymru a gyhoeddwyd?



Themâu Allweddol

Yn yr ymatebion agored, cytunwyd yn gyffredinol bod canllawiau Agor Llwybrau yn ategu'r Cwricwlwm i Gymru ac y byddent yn werthfawr o ran llywio'r modd y mae'r ymarferwyr yn ymwneud â'r dysgwyr:

Mae'r canllawiau'n cefnogi canllawiau'r cwricwlwm yn dda. Maent yn ategu ei gilydd ac yn gallu cynorthwyo ymarferwyr i gyflwyno cwricwlwm eang effeithiol.

Athro Ymgynghorol y Blynyddoedd Cynnar, Lleoliad meithrin dydd preifat

Cytunwn fod y ddogfen (yn gyffredinol) yn adlewyrchu'n glir uchelgais y Cwricwlwm i Gymru, gan roi dysgwyr wrth wraidd y profiad dysgu gydag ymgyrch glir i ymgorffori pedwar diben y cwricwlwm.

Consortiwm rhanbarthol

O'r safbwyntiau hyn, roedd yr ymatebwyr hefyd yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi'r dull o gefnogi dysgwyr fel sydd wedi'i amlinellu yn y canllawiau. Roedd hyn yn awgrymu cefnogaeth i gyfeiriad cyffredinol canllawiau Agor Llwybrau a'r cwricwlwm yn ehangach:

Mae ganddo gysylltiad cryf â chwricwlwm sy'n seiliedig ar ddiben, ac mae yna ddisgwyliadau clir i ysgolion barhau i ymateb i anghenion disgyblion unigol, tra'n gwireddu dysgu sy'n hyrwyddo cwricwlwm sy'n seiliedig ar ddiben. Mae'r ffocws ar ddatblygu gwybodaeth, sgiliau a phrofiadau drwy gefnogi galluogwyr yn glir a chryno iawn ac nid yw'n rhy rhagnodol.

Swyddog Gwella Ysgolion, Awdurdod lleol

Mae'n amlwg bod y Cwricwlwm i Gymru a'r canllawiau drafft yn cyd-fynd yn glir. Mae ethos y Cwricwlwm i Gymru wedi'i gynnal drwyddi draw gyda chymorth ychwanegol awgrymiadau myfyriol i arweinwyr ac ymarferwyr yn y lleoliadau nas cynhelir.

Blynyddoedd Cynnar Cymru

Rhagor o Wybodaeth

Roedd y rhai a deimlai y gellid cryfhau'r cysylltiadau rhwng canllawiau Agor Llwybrau a'r cwricwlwm ehangach yn aml yn nodi y byddai rhagor o wybodaeth yn y canllawiau yn werthfawr. Roedd hyn yn cynnwys elfennau fel cyfeirio'n fwy penodol at y pedwar diben ac at Feysydd Dysgu a Phrofiad yn y canllawiau, yn ogystal â gwybodaeth arall a allai fod o gymorth i ymarferwyr ymgysylltu:

Mae perthynas glir rhwng canllawiau Agor Llwybrau a chanllawiau cyhoeddedig y Cwricwlwm i Gymru [...]. Mae'r canllawiau'n adlewyrchu gwerthoedd y Cwricwlwm i Gymru gan ystyried y lleoliadau penodol sy'n arwain y dysgu tuag at gam cynnydd 1. Mae lle i gryfhau'r canllawiau drafft hyn drwy ychwanegu rhagor o wybodaeth am y pynciau a amlygwyd yn y cyflwyniad i'r ymateb hwn, yn ogystal ag astudiaethau achos gan ysgolion arloesi neu ddysgu proffesiynol i gynorthwyo'r gwaith o ddeall a gweithredu arferion gorau.

Estyn

Cysylltiadau Cryfach

Nododd rhai ymatebwyr hefyd mai un rhwystr posibl yw faint o ganllawiau yr oedd angen i ymarferwyr ymwneud â hwy. O'r safbwyntiau hyn, roedd angen i ymarferwyr ddod o hyd i amrywiaeth o wybodaeth ar draws nifer o ddogfennau er mwyn deall ac ymateb i'r cwricwlwm newydd. Roedd yr ymatebwyr hyn yn tueddu i alw am gysylltiadau mwy penodol o fewn canllawiau Agor Llwybrau:

Mae'r ddwy ddogfen yn esbonio y bydd y cwricwlwm yn seiliedig ar y pedwar diben, ac yn darparu egwyddorion allweddol, ond, ar wahân i hynny, maent yn teimlo'n wahanol iawn. Mae'r ddogfen hon yn fwy cryno a hawdd ei defnyddio ond ychydig iawn mae'n ei ddweud am y chwe maes dysgu a phrofiad neu elfennau gorfodol y cwricwlwm, tra bod y rhain wedi'u cynnwys yn fanwl yng nghanllawiau cyhoeddedig y Cwricwlwm i Gymru. Nid yw'n glir ynghylch diben y ddogfen hon ac a ddylid ei darllen yn lle canllawiau cyhoeddedig y Cwricwlwm i Gymru neu ar y cyd â hwy.


Rheolwr Blynyddoedd Cynnar, Awdurdod Lleol

2.4 Materion sy'n Wynebu Ymarferwyr

Gofynnwyd i'r ymatebwyr wedyn a oedd y canllawiau drafft yn mynd i'r afael yn ddigonol â'r materion sy'n wynebu ymarferwyr sy'n gweithio gyda dysgwyr sy'n gweithio tuag at gam cynnydd 1.²

Canfyddiadau Cyffredinol

Roedd cyfanswm o 44.5 y cant o'r ymatebwyr yn teimlo bod y canllawiau'n mynd i'r afael yn ddigonol â'r materion sy'n wynebu ymarferwyr. Roedd 35.1 y cant arall yn ansicr, a theimlai 20.2 y cant nad oeddent yn gwneud hynny:



Themâu Allweddol

Mewn ymatebion mwy agored, roedd y rhai a oedd yn teimlo bod y canllawiau'n ddigonol yn tueddu i fynegi cefnogaeth ehangach i'r dull sy'n cael ei argymhell yng nghanllawiau Agor Llwybrau. Roedd hyn yn cynnwys lle canolog y dysgwr, yn ogystal â'r egwyddorion addysgeg sy'n sail i'r dull gweithredu. O'r safbwyntiau hyn, roedd y canllawiau'n darparu dull effeithiol i gefnogi pob dysgwr. Yn fwy na hynny, teimlai'r ymatebwyr fod eglurder a hygyrchedd y canllawiau yn helpu'r ymarferwyr i ddychmygu'r cwricwlwm a gweithredu arno:

Mae'r canllawiau hyn yn rhagorol ac yn cyd-fynd yn agos iawn â'r hyn sydd ei angen yn fy marn i yn [y blynyddoedd cynnar] a chyda'r hyn y mae fy mhrofiad a'm hymchwil fy hun [yn ei ddangos]. Mae'n cyd-fynd mor dda â'r dull "cynllunio ar y pryd" rwy'n ei ddilyn [...]. Mae'n adeiladu ar egwyddorion y cyfnod sylfaen ac yn caniatáu ac yn galluogi'r ymarferydd i weithio gyda phlant ifanc yn y ffordd y mae'n gwybod ei fod yn iawn — h.y. ar y pryd, ar lefel y plentyn, [a] hwyluso dysgu mewn amgylchedd

² Cwestiwn 3 – Ydy'r canllawiau drafft hyn yn mynd i'r afael yn ddigonol â'r materion sy'n wynebu ymarferwyr sy'n gweithio gyda dysgwyr yn y cyfnod dysgu sy'n arwain at gam cynnydd 2, wrth gynllunio, dylunio a gweithredu'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu ar gyfer dysgwyr?

cyfoethog, amrywiol ac agored yn gymaint y tu allan â'r tu mewn. Mae'n ganllaw ardderchog.

Athro, Ysgol Gynradd

Cymorth ac Adnoddau Ehangach

Un thema allweddol ymhlith ymatebwyr a oedd yn teimlo'n ansicr neu nad oedd y canllawiau'n ddigonol oedd pwysigrwydd cymorth ac adnoddau ehangach y byddai eu hangen i gynorthwyo'r ymarferwyr i ymwneud â'r cwricwlwm newydd. Roedd hyn yn cynnwys pwysigrwydd datblygiad proffesiynol parhaus i gyflwyno'r sgiliau a'r hyder er mwyn cynorthwyo pob dysgwr yn effeithiol, gan gynnwys y rhai sy'n wynebu oedi datblygiadol neu anghenion dysgu ychwanegol. Teimlai'r ymatebwyr fod hyn yn arbennig o bwysig i gydweithwyr llai profiadol, yn ogystal ag er mwyn cynorthwyo ymarferwyr sy'n llai cyfarwydd â rhai o'r egwyddorion a'r prosesau sy'n sail i'r dull gweithredu hwn, gan gynnwys dylunio'r cwricwlwm. O'r safbwyntiau hyn, byddai hyfforddiant yn werthfawr ochr yn ochr â chanllawiau Agor Llwybrau:

Bydd athrawon profiadol yn gallu deall a gweithredu'r canllawiau hyn. Rwy'n credu eu bod yn rhy amwys i [athrawon newydd gymhwyso] neu'r athrawon hynny sydd ar ddechrau eu gyrfa. Byddai rhai enghreifftiau o dystiolaeth a syniadau (lluniau/fideos) yn sicr o fudd i'r holl staff.

Athro, ysgol cyfrwng Saesneg (cynradd)

Mae'n dibynnu at ba faterion/ymarferwyr rydych chi'n cyfeirio. Bydd gan rai syniad clir iawn o'r materion y mae angen mynd i'r afael â hwy wrth ddylunio a datblygu cwricwlwm, tra bydd eraill newydd ddechrau deall disgwyliadau a dyheadau'r [Cwricwlwm i Gymru]. Nid yw dylunio'r cwricwlwm yn rhywbeth y bydd llawer o ymarferwyr wedi'i brofi a bydd, heb os, yn syniad brawychus. Efallai y bydd llawer yn teimlo eu bod eisoes yn "gwneud" [y Cwricwlwm i Gymru] heb ddeall y newid addysgegol sydd ei angen, ac efallai na fyddant yn teimlo bod angen gwneud newidiadau. Yn dibynnu ar ba leoliad rydych chi'n trafod â nhw, bydd y "materion" yn wahanol; er enghraifft, gall y materion dan sylw mewn lleoliad blynyddoedd cynnar prif ffrwd fod yn wahanol i'r rhai mewn ysgol arbennig.

Cyfarwyddwr, Darparwr hyfforddiant preifat

Thema arall oedd yr adnoddau sydd ar gael i ymarferwyr, lleoliadau ac ysgolion i gynorthwyo'r gwaith o gyflwyno'r cwricwlwm newydd. Roedd rhai ymatebwyr, er enghraifft, yn teimlo nad oedd ganddynt fynediad i amgylcheddau awyr agored a fyddai'n eu galluogi i gyflawni dyheadau'r canllawiau i ddysgu yn yr awyr agored:

Mae rôl y galluogwyr wedi'i hesbonio'n glir ac mae hyn yn hynod o ddefnyddiol o ran canolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig wrth gynllunio, dylunio a chyflwyno'r cwricwlwm a'r asesiadau ar gyfer y dysgwyr. Nid wy'n siŵr a yw'n mynd i'r afael â materion sy'n

wynebu ymarferwyr, fel sut maent yn creu amgylchedd sy'n galluogi os ydynt mewn adeilad cymunedol heb lawer o fynediad i'r awyr agored.


Rheolwr Blynnyddoedd Cynnar, Awdurdod Lleol

2.5 Cynllunio, Dylunio a Gweithredu'r Cwricwlwm a'r Aseu

Gan droi at gynllunio, dylunio a gweithredu trefniadau cwricwlwm ac aseu, gofynnwyd i'r ymatebwyr a oedd y canllawiau'n cynorthwyo'r ymarferwyr yn ddigonol i ymwneud â'r cwricwlwm.³

Canfyddiadau Cyffredinol

Roedd mwy o anghytundeb i'w weld ymhlith ymatebwyr ynglŷn ag a oedd y canllawiau'n helpu i gynllunio, dylunio a gweithredu'r cwricwlwm a'r aseu yn ddigonol cyn cam cynnydd 1:



³ Cwestiwn 4 – Ydy'r canllawiau hyn yn rhoi digon o gefnogaeth a chymorth wrth gynllunio, dylunio a gweithredu'r cwricwlwm a'r trefniadau aseu ar gyfer dysgwyr yn y cyfnod dysgu sy'n arwain at gam cynnydd 1?

Themâu Allweddol

I'r ymatebwyr hynny a oedd yn cytuno, nododd y rhan fwyaf unwaith eto eu bod yn teimlo bod y canllawiau'n glir ac yn ddefnyddiol, gan gynnwys o ran cynllunio a chyflwyno'r cwricwlwm i ddysgwyr cyn cam cynnydd 1:

Teimlwn fod hyn yn gynhwysfawr [ac] yn hawdd ei ddarllen i gynorthwyo'r holl staff yn ystod y cyfnod hwn. Rydym yn falch o weld ei fod yn canolbwyntio ar ddatblygiad y plant. Mae'r agwedd asesu'n briodol i'r lle mae'r dysgwyr arni.

Arweinydd y Cyfnod Sylfaen, Ysgol Gynradd

Rhagor o Wybodaeth

Roedd y rhai a oedd yn cynnig safbwyntiau mwy amodol yn tueddu i ganolbwyntio ar ragor o wybodaeth a allai fod yn werthfawr i gynorthwyo ymarferwyr i ymwneud â'r cwricwlwm. Roedd yr awgrymiadau'n cynnwys amrywiaeth o wybodaeth ychwanegol, gan gynnwys cryfhau'r cysylltiadau rhwng Agor Llwybrau a chanllawiau eraill. Nododd rhai ymatebwyr hefyd y gallai rhagor o wybodaeth ymarferol fod o gymorth i ymarferwyr weithredu ar y canllawiau:

Rydym yn cytuno [bod y canllawiau] yn ymdrin â'r prif egwyddorion sy'n bwysig, ond nid ydynt yn rhoi canllawiau y tu hwnt i'r rhain sy'n ymwneud â llunio, cynllunio a dylunio cwricwlwm. Mae'r hyn sydd wedi'i gynnwys yn ymwneud mwy â theori, ethos ac egwyddorion nag enghreifftiau ymarferol a allai gynorthwyo'r gwaith o gynllunio, dylunio a gweithredu cwricwlwm. Gwyddom fod Llywodraeth Cymru'n awyddus i osgoi rhagnodi; fodd bynnag, teimlwn fod y canllawiau yn y ddogfen hon ac Agor Llwybrau ychydig yn rhy gyffredinol, ac y gallai rhai enghreifftiau neu awgrymiadau gael eu cynnwys i helpu i roi cyfeiriad.

PACEY Cymru

Gellid cryfhau'r canllawiau ymhellach drwy ychwanegu astudiaethau achos i hybu dealltwriaeth ehangach o arferion gorau. Er enghraifft, gallai'r canllawiau gynnwys enghreifftiau penodol o wahanol leoliadau, eu cyfyngiadau a'u cryfderau, a sut maent wedi defnyddio egwyddorion o'r canllawiau hyn i greu cwricwlwm newydd ac ystyrlon ar gyfer eu lleoliad neu'u hysgol.

Estyn

2.6 Agweddau Defnyddiol

Gofynnwyd i'r ymatebwyr wedyn ba agweddau ar y canllawiau a oedd fwyaf defnyddiol iddynt yn eu barn nhw.⁴

Themâu Allweddol

Un elfen allweddol a oedd yn ddefnyddiol ym marn yr ymatebwyr oedd strwythur cyffredinol, naws a hygyrchedd y ddogfen. At hynny, roedd cefnogaeth eang i'r dull gweithredu cyffredinol sy'n cael ei argymhell yn y canllawiau, gan gynnwys y pwyslais ar arsylwi a chwarae. Nodwyd yn gyson hefyd bod cysyniad y tri galluogwr yn werthfawr er mwyn cyfleu a llunio ymarfer effeithiol:

Mae rôl y tri galluogwr ac allwedd addysgeg effeithiol sy'n canolbwyntio ar y dysgwr yn glir ac mae eu pwysigrwydd yn cael ei amlygu. Mae'r rhain yn arbennig o ddefnyddiol i ysgolion ac ymarferwyr yn y broses gynllunio. Mae'r ffocws yn y canllawiau ar ddylunio'r cwricwlwm a datblygiad plant yn gryfder ac yn pwysleisio'n effeithiol bwysigrwydd cwricwlwm blaengar gyda'r pedwar diben yn ganolog iddo, sef nodwedd ddiffiniol fframwaith y cwricwlwm newydd.

Consortiwm rhanbarthol

Dull y "cyfleoedd dysgu digymell "; y syniad o oedolion fel galluogwyr a hwyluswyr; yr amgylchedd galluogi y tu mewn a'r tu allan; y dysgu a arweinir gan y plentyn; y syfrdandod a'r rhyfeddod a'r llawenydd o weithio gyda phlant ifanc fel ymarferydd medrus, gan ganiatáu a hwyluso plant i arwain eu dysgu eu hunain, gan ddatblygu gwytnwch, hyder, hunan-barch, y gallu i wneud penderfyniadau, a sgiliau datrys problemau, yn ogystal â datblygu'r sgiliau sy'n seiliedig ar wybodaeth yn y cwricwlwm.

Athro, Ysgol Gynradd

2.7 Rhagnodi


Er mwyn deall a oedd y canllawiau'n cyflawni'r lefel gywir o ddyfnder, gofynnwyd i'r ymatebwyr wedyn a oeddent yn teimlo bod unrhyw agweddau ar y canllawiau yn rhy rhagnodol.⁵

⁴ Cwestiwn 5 – Yn eich barn chi, pa elfennau, os o gwbl, o'r canllawiau hyn sydd fwyaf buddiol ac y dylid eu cadw?

⁵ Cwestiwn 6 – Yn eich barn chi, oes yna unrhyw elfennau o'r canllawiau hyn sy'n rhoi cyfarwyddyd rhy benodol?

Canfyddiadau Cyffredinol

Roedd yr ymatebwyr (ar y cyfan) yn teimlo nad oedd y canllawiau'n rhy rhagnodol. Teimlwyd bod hyn yn gadarnhaol, ac yn caniatáu mwy o asiantaeth a chreadigrwydd i'r ymarferwyr:



Themâu Allweddol

Roedd y rhai a deimlai nad oedd y canllawiau'n rhagnodol yn tueddu i beidio ag ymhelaethu ar eu barn.

Cynorthwyo Pob Lleoliad ac Ysgol

Cyfeiriodd rhai ymatebwyr at bwysigrwydd cydbwysedd rhwng ehangder a dyfnder ac y byddai rhai lleoliadau ac ysgolion yn elwa ar wahanol lefelau o fanylder a rhagnodi yn y canllawiau. O'r safbwyntiau hyn, byddai hyder a sgiliau i ymwneud â'r cwricwlwm yn llywio'r ymatebion sy'n dilyn. Byddai'r lleoliadau a'r ysgolion hynny sy'n teimlo'n fwy cyfforddus yn croesawu'r hyblygrwydd sy'n cael ei gynnig yn y canllawiau, ac efallai y byddai'r rhai sy'n teimlo'n llai hyderus yn dymuno gweld canllawiau manylach a mwy rhagnodol i'w cynorthwyo i ymwneud â'r cwricwlwm:

Rydym yn ceisio osgoi cyffredinoli. Bydd yna leoliadau sydd am gael eu harwain tuag at y cwricwlwm newydd gyda chanllawiau, sgaffaldwaith a chymorth, a bydd yna eraill sydd â'r hyder a'r wybodaeth i symud i mewn i'r cwricwlwm newydd mewn modd cadarnhaol a brwdfrydig. Felly, bydd o fewn yr unigolyn a oes [agweddau] sy'n ymddangos yn rhy rhagnodol. Ar lefel bersonol, credaf fod digon o ganllawiau i lunio barn broffesiynol wybodus ac wedyn defnyddio'r canllawiau i gefnogi a myfyrio yn y meysydd hynny y mae'r ymarferwyr yn llai hyderus neu wybodus yn eu cylch.

Blynyddoedd Cynnar Cymru

Enghreifftiau Penodol

Roedd rhai ymatebwyr yn cynnig enghreifftiau penodol iawn o ble roeddent yn teimlo bod y canllawiau'n rhy rhagnodol. Nododd Estyn, er enghraifft:

Er ein bod yn croesawu'r pwyslais ar fod yn yr awyr agored i'r rhan fwyaf o ddysgwyr mewn ysgolion a lleoliadau nas cynhelir, credwn y gallai'r frawddeg 'Dylai'r rhan fwyaf o'r dysgwyr fod yn yr awyr agored' fod yn rhy rhagnodol. Er enghraifft, efallai na fydd rhai dysgwyr, yn enwedig y rhai sydd â chyflyrau iechyd sylfaenol, yn gallu treulio cyfnodau hir mewn amgylchedd awyr agored yn ddiogel. Mae'r canllawiau hyn ar gyfer y cwricwlwm wedi'u dylunio i wneud newidiadau a gwelliannau ystyrion i bob lleoliad addysg yng Nghymru ac mae ganddynt y gallu i wneud hynny.


Estyn

2.8 Manylion

Gofynnwyd i'r ymatebwyr wedyn a fyddai unrhyw fanylion pellach yn ddefnyddiol i'w cynnwys yn y canllawiau.⁶

Canfyddiadau Cyffredinol

Roedd 57.7 y cant o'r ymatebwyr yn teimlo y byddai'r canllawiau'n elwa o gynnwys rhagor o fanylion i helpu'r ymarferwyr i weithredu ar y cwricwlwm:



Themâu Allweddol

Mewn ymatebion mwy agored, cynigiodd yr ymatebwyr amrywiaeth eang o awgrymiadau lle byddai'n ddefnyddiol cynnwys rhagor o fanylion. Yn sail i lawer o'r safbwyntiau hyn yr oedd

⁶ Cwestiwn 7 – Yn eich barn chi, oes yna unrhyw elfennau o'r canllawiau hyn nad ydynt yn ddigon manwl?

pwysigrwydd helpu ymarferwyr i ddychmygu a gweithredu ar y cwricwlwm yn ymarferol. Roedd un ymatebydd yn nodweddiadol o'r ffordd ymarferol yr oedd llawer yn darllen y canllawiau:

Gallai rhagor o wybodaeth am arsylwi gael ei hychwanegu, a byddai enghreifftiau o sut i ddogfennu a blaenoriaethu cyfleoedd dysgu digymell yn helpu i wneud y rhain yn gliriach i'r ymarferwyr.

Ymarferydd, Lleoliad a ariennir nas cynhelir

Mae arsylwi yn datblygu sgwrs broffesiynol rhwng oedolion yn yr ystafell ddosbarth. Faint o amser sydd angen ei dreulio yn cofnodi hyn? A all oedolion ddefnyddio dulliau arsylwi digidol? Dylid treulio mwy o amser yn gwirioneddol arsylwi'r dysgwyr ac yn symud eu dysgu ymlaen, heb wneud nodiadau, ac ati. Byddai unrhyw enghreifftiau o arsylwi yn fuddiol fan yma.

Athro, Ysgol gynradd

Teimlai rhai y gellid datrys hyn drwy ddarparu cysylltiadau cryfach â chanllawiau eraill. O'r safbwyntiau hyn, roedd yr ymatebwyr wedi deall goblygiadau ymarferol y canllawiau ond bu'n rhaid iddynt groesgyfeirio at ddogfennau eraill er mwyn creu darlun mwy cyflawn. Roedd eraill, fodd bynnag, yn teimlo bod cynnwys a hyd y canllawiau yn werthfawr:

Mae'n gryno ac nid yn rhy hir, wedi'i rannu'n ddarnau hylaw.

Uwch Arweinydd, Ysgol arbennig


2.9 Sgiliau Trawsgwricwlaidd

Gan droi at archwilio sgiliau trawsgwricwlaidd, gofynnwyd i'r ymatebwyr a oeddent yn teimlo y byddai gwybodaeth bellach yn werthfawr yn y canllawiau.⁷

Canfyddiadau Cyffredinol

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn teimlo y byddai rhagor o wybodaeth am sgiliau trawsgwricwlaidd yn werthfawr:

⁷ Cwestiwn 8 – A fyddai'n help cynnwys gwybodaeth fanylach yn y canllawiau ar ddatblygiad sgiliau trawsgwricwlaidd ymhlith dysgwyr yn y cyfnod dysgu hwn?



Themâu Allweddol

Ystyriwyd bod mwy o wybodaeth yn werthfawr am nifer o resymau, gan gynnwys er mwyn codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd cynorthwyo datblygiad sgiliau trawsgwricwlaidd mewn rhai lleoliadau:

Byddai cynnwys gwybodaeth fanylach yn y canllawiau Agor Llwybrau ar ddatblygiad sgiliau trawsgwricwlaidd ymhlith dysgwyr yn y cyfnod dysgu sydd yn arwain at Gam Cynnydd 1 yn fanteisiol. Dyma'r unig ffordd i sicrhau bod ymarferwyr lleoliadau meithrin yn deall yr angen i sicrhau bod y sgiliau trawsgwricwlaidd yn cael ystyriaeth wrth iddynt gynllunio profiadau a gweithgareddau dysgu sydd yn ateb gofynion y canllawiau a Cwricwlwm i Gymru yn ei ehangder. Nid oes digon o gyfeiriad at sgiliau iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu, Rhifedd na Chymhwysedd Digidol yn y canllawiau hyn. O ganlyniad, nid yw hi'n amlwg bod angen cynnwys gweithgareddau sydd yn datblygu'r sgiliau trawsgwricwlaidd ar draws y cwricwlwm. Gofynnwn am wybodaeth fanylach yma.

Rheolwr Polisi, Mudiad Meithrin

Cafwyd awgrymiadau mwy penodol hefyd ynghylch ble y gellid cryfhau'r canllawiau. Thema a oedd yn rhedeg drwy'r ymatebion, er enghraifft, oedd mwy o wybodaeth am sut y gallai'r ymarferwyr gynorthwyo'r gwaith o ddatblygu cymhwysedd digidol. Roedd rhai ymatebwyr yn mynegi bod hyn wedi'i drafod yn ddigonol mewn dogfennau eraill fel y cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir. O'r safbwyntiau hyn, gallai canllawiau Agor Llwybrau gael eu croesgyfeirio neu gellid rhoi rhagor o gnawd ar yr esgyrn i gynnwys yr elfennau hyn:

Byddai unrhyw ganllawiau pellach neu astudiaethau achos ar ddatblygu sgiliau trawsgwricwlaidd yn cryfhau'r canllawiau hyn ac yn cynnig dealltwriaeth fwy cynhwysfawr i athrawon ac arweinwyr. Gallai hyn wella'r gwaith o ddatblygu a dylunio'r cwricwlwm yn y dyfodol. Fodd bynnag, pan ystyriwn y ddogfen ymgynghori ar y cwricwlwm nas cynhelir, gwelwn fod y manylion hyn wedi'u cynnwys ar gyfer

lleoliadau nas cynhelir. Mae hyn yn ddefnyddiol iawn i ymarferwyr mewn lleoliadau. Gallai fod yn ddefnyddiol ymgorffori'r wybodaeth ychwanegol hon ym mhob dogfen ganllaw'r cwricwlwm (yn hytrach nag yn y ddogfen hon ar ei phen ei hun).


Estyn

2.10 Rhagor o Wybodaeth

Yn fwy cyffredinol, gofynnwyd i'r ymatebwyr wedyn a oeddent yn teimlo y gallai'r canllawiau gynnwys unrhyw wybodaeth bellach i gynorthwyo'r ymarferwyr.⁸

Canfyddiadau Cyffredinol

Unwaith eto, nododd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr y byddai rhagor o wybodaeth yn werthfawr:



Themâu Allweddol

Cynigiodd yr ymatebwyr ystod eang o awgrymiadau ynghylch ble y gallai gwybodaeth bellach fod yn werthfawr. Roedd y themâu allweddol yn cynnwys canllawiau mwy ymarferol, gan gynnwys o ran dylunio'r cwricwlwm ac arsylwi ac asesu. O'r safbwyntiau hyn, gallai elfennau fel esiamplau fod yn werthfawr o ran helpu ymarferwyr i ddychmygu a gweithredu ar y cwricwlwm yn ymarferol. Cyfeiriodd ymatebwyr eraill at enghreifftiau penodol o ble y gallai gwybodaeth bellach neu gyfeiriadau mwy penodol fod yn werthfawr, gan gynnwys mewn perthynas â'r Gymraeg yn ogystal â hawliau plant:

Fel Comisiynydd Plant Cymru, fy mhrif rôl yw diogelu lles a hawliau plant, fel sydd wedi'u nodi o dan CCUHP. O'r safbwynt hwn, mae'r rhain yn ganllawiau cryf sydd â datblygiad cyfannol plant, eu hawl i chwarae a'u lles yn ganolog iddynt ac rwyf yn ei groesawu. Fodd bynnag, gellir cryfhau hyn ymhellach drwy ei gwneud yn glir bod yr

⁸ Cwestiwn 9 – Yn eich barn chi, oes yna unrhyw wybodaeth arall y dylid ei chynnwys yn y canllawiau hyn?

egwyddorion hyn yn cael eu hategu gan hawliau dynol plant, fel sydd wedi'i nodi yn CCUHP. Bydd hyn wedyn yn rhoi'r sail ar gyfer dealltwriaeth feirniadol nad egwyddorion "braf eu cael" yw hyn yn ond eu bod yn hawliau sylfaenol i bob plentyn a pherson ifanc.

Comisiynydd Plant Cymru

2.11 Effaith ar y Gymraeg

Yn olaf, gofynnwyd i'r ymatebwyr am eu barn ar effeithiau posibl canllawiau Agor Llwybrau ar y Gymraeg.

Themâu Allweddol

Ar y cyfan, nid oedd yr ymatebwyr yn cynnig unrhyw sylwadau cyffredinol ar effaith y canllawiau ar addysgu a dysgu Cymraeg. Teimlai rhai fod y canllawiau'n cyfleu'n effeithiol bwysigrwydd darpariaeth Gymraeg a'r pwyslais sydd ar hynny:

Ni ddylai fod unrhyw effaith. Gellid a dylid defnyddio cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ar draws pob cyfnod dysgu. Nid yw'r canllawiau'n ffafrio un iaith dros y llall, [ond] yn hytrach mae'n datgan yn benodol: 'Dylai profiadau adlewyrchu a dathlu natur ddwyieithog Cymru ac amrywiaeth diwylliant Cymru.' [Mae yna] gyfeiriad cadarnhaol at hyrwyddo a defnyddio'r Gymraeg a diwylliant a threftadaeth Cymru a "Chynefin".

Cynghorydd Herio, Consortiwm Rhanbarthol

Roedd ymatebwyr o leoliadau cyfrwng Cymraeg yn tueddu i beidio â mynegi unrhyw bryderon. I'r rhai a wnaeth fynegi pryderon, cyfeiriwyd at faterion a oedd yn debyg i'r rhai yn y cwricwlwm nas cynhaliwyd. Roedd y rhain yn tueddu i ganolbwyntio ar ddarpariaeth Gymraeg mewn lleoliadau Saesneg, y teimlai rhai y gellid eu cryfhau. O'r safbwyntiau hyn, gallai canllawiau Agor Llwybrau wneud pwysigrwydd yr iaith a diwylliant Cymru yn fwy eglur yn y ddogfen:

Nid ydym yn teimlo bod y canllawiau'n rhoi pwyslais digon cryf ar ddatblygu'r Gymraeg, a [theimlwn] nad yw'n amlinellu sut mae'n cefnogi ac yn gweithio tuag at wireddu gweledigaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru [...]. Yn gyffredinol, teimlwn y gellid cryfhau cyd-destun Cymreig y ddogfen hon mewn sawl maes, megis wrth hyrwyddo hunaniaeth Gymreig plant. Dylai'r ddogfen hefyd ystyried darparu'r Gymraeg i ddiwallu anghenion pob dysgwr, yn enwedig dysgwyr mewn ysgolion arbennig.

Estyn

2.12 Casgliadau

Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr o'r farn bod y canllawiau'n ddefnyddiol ac yn llawn gwybodaeth. Roedd cytundeb cyffredinol bod y canllawiau'n hygyrch a bod y ddogfen yn glir ac yn gryno:

Mae'n ddogfen sydd wedi'i hysgrifennu'n dda iawn.

Cynorthwy-ydd Addysgu, Meithrinfa

Cyfeiriodd yr ymatebwyr at nifer o feysydd lle gellid cryfhau'r canllawiau. Roedd un cwestiwn allweddol yn ymwneud â'r cydbwysedd rhwng rhagnodi a lefel y manylion sydd yn y canllawiau er mwyn rhoi'r dull gweithredu ar waith. Roedd yr ymatebwyr (ar y cyfan) yn teimlo bod y canllawiau'n cynnwys lefel briodol o ragnodi; fodd bynnag, teimlai 57.7 y cant o'r ymatebwyr nad oedd digon o fanylion yn y canllawiau mewn manau. Er nad yw lefelau rhagnodi a manylder yng nghanllawiau'r cwricwlwm yn agweddau na all gydfodoli — gall canllawiau fod yn fanwl ac yn hyblyg — roedd yna rai yn teimlo y byddai rhagor o wybodaeth yn fuddiol.

O'r safbwyntiau hyn, roedd awgrymiadau'n cynnwys bod cysylltiadau mwy penodol rhwng Agor Llwybrau a chanllawiau ehangach yn cael eu hystyried yn werthfawr, yn ogystal â gwybodaeth fwy ymarferol a allai gynorthwyo ymgysylltiad. Teimlai rhai y byddai rhagor o wybodaeth neu gyfeiriad mwy penodol at rai elfennau (megis hawliau plant a hyrwyddo'r Gymraeg) yn cryfhau'r canllawiau. At hynny, teimlwyd ei bod yn bwysig bod cymorth ehangach yn cael ei ddarparu i gyd-fynd â'r canllawiau, gan gynnwys hyfforddiant i feithrin sgiliau a hyder.

Fel yn achos y cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir, roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar ganllawiau Agor Llwybrau yn awgrymu bod yna gefnogaeth eang i deimlad a chyfeiriad cyffredinol y dull gweithredu yn y canllawiau. Roedd hyn yn deillio o'r ddealltwriaeth bod y dull gweithredu'n briodol ac yn effeithiol o ran cefnogi pob dysgwr, gan gynnwys y rhai sy'n gweithio tuag at gam cynnydd 1.

wavehill™

social and economic research
ymchwil cymdeithasol ac economaidd

01545 571711

wavehill@wavehill.com

wavehill.com

